# Cwpanau plastig

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

29 Mai 2019

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 9 Mai, pan wnaethoch ofyn:

*Gofynnaf am y manylion a ganlyn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:*

1) *Faint o gwpanau plastig untro a brynwyd gan y sefydliad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf - 2018/19?*
2) *Hefyd, beth oedd cyfanswm y gost yn yr un flwyddyn ariannol?*
3) *Pa gamau y mae eich sefydliad yn eu cymryd i leihau nifer y cwpanau untro?*

Gweler isod yr ymateb i'ch cais:

Yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19, prynodd y Cynulliad 66,600 o gwpanau plastig untro, gan wario £1,414.59. Fodd bynnag, ym mis Medi 2018 gwnaethom roi'r gorau i ddarparu cwpanau plastig untro, a bellach rydym yn cynnig ystod o ddewisiadau bioddiraddiadwy eraill.

Rydym hefyd wedi cymryd camau i leihau'r defnydd o blastig untro yn sylweddol mewn adrannau eraill o'n sefydliad, gan gynnwys cynwysyddion cludadwy bioddiraddiadwy a chyllyll a ffyrc ym mwyty ein Comisiwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'r cyfeiriad post a ganlyn:
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF